Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Micro-gymwysterau

## Arferion yn y sector addysg uwch yng Nghymru

Rhagfyr 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1

Micro-gymwysterau yng Nghymru: y ffeithiau a'r ffigurau ........ 1

Y defnydd a wneir o ganllawiau i'r sector, yn cynnwys
y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau gan QAA ........ 2

Fframweithiau academaidd a phrosesau rheoli ansawdd ........ 3

Y cymorth a'r cyfleusterau sydd ar gael i'r myfyrwyr ........ 4

Ymgysylltiad myfyrwyr ........ 4

Y prif heriau ........ 4

Ystyriaethau i hysbysu gwaith pellach ........ 5

Cydnabyddiaethau ........ 7

# Cyflwyniad

1 Yn ei lythyr grant ar gyfer 2022-23, gofynnodd CCAUC i QAA Cymru archwilio'r arferion cyfredol yn y sector addysg uwch yn ymwneud â micro-gymwysterau, gan adeiladu ar yr astudiaethau achos a ddatblygwyd eisoes gan CCAUC.[1] Y bwriad oedd bod cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys y defnydd a wneir ar hyn o bryd o'r [Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau](#) gan QAA (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022), a gweminar i rannu arferion.

2 Cychwynnodd gwaith ar y prosiect hwn ym mis Mawrth 2023. Rhoddwyd arolwg i'r darparwyr a oedd yn cymryd rhan ynddo, a defnyddiwyd yr ymatebion i hysbysu trafodaethau pwrpasol gyda phob un o'r darparwyr.[2] Roedd y trafodaethau'n gyfle i archwilio rhai o'r dulliau'n fanylach; unrhyw heriau a ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â nhw; y defnydd a wneir o'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau ac a fyddai unrhyw addasiadau iddo'n ddefnyddiol ar y cam hwn; ac unrhyw feysydd eraill a allai fod yn werthfawr i'r sector eu harchwilio er mwyn gwella arferion.

3 Hefyd, cynhaliwyd dau weminar. Roedd y cyntaf, ar 24 Mai 2023, yn ystyried prosesau sicrhau ansawdd; a'r ail, ar 7 Mehefin 2023, yn myfyrio ar elfennau ymarferol eu darparu. Patrwm y ddau weminar oedd cyflwyniadau gan ddau ddarparwr gwahanol wedi ei ddilyn gan drafodaeth banel oedd yn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan y rhai oedd yn mynychu. Mae QAA Cymru yn hynod ddiolchgar i'r siaradwyr a roddodd eu hamser yn hael iawn ac a oedd yn fodlon rhannu eu profiadau, eu gwybodaeth a'u syniadau.

4 Er bod maint yr ymgysylltiad â micro-gymwysterau'n amrywio ar draws y sector, daeth nifer o themâu i'r amlwg o'r gwaith hwn ac mae'r rheiny'n cael eu harchwilio'n fanylach yn y crynodeb hwn. Ar y cyfan, cadarnhawyd fod y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau'n cael ei ystyried yn adnodd defnyddiol, nad yw'n rhwystro arloesiad a datblygiadau, nac yn cynnwys bylchau sylweddol. Mae arferion yn ymwneud â chyrsiau micro-gymhwyster a chyrsiau byr yn debygol o barhau i esblygu, ond mae nifer o heriau y gallai'r sector ymdrin â nhw ar y cyd yn y dyfodol a byddai hynny'n ddefnyddiol.

# Micro-gymwysterau yng Nghymru: y ffeithiau a'r ffigurau

5 O'r 11 darparwr sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn, mae chwech yn cynnig cyrsiau micro-gymhwyster ar hyn o bryd, mae tri'n bwriadu datblygu cyrsiau micro-gymhwyster yn ystod y 12 mis nesaf, a does gan ddau ohonyn nhw ddim cynlluniau i ddatblygu cyrsiau micro-gymhwyster yn y dyfodol agos. Mae werth nodi, fodd bynnag, bod nifer fawr o ddarparwyr yn rhedeg cyrsiau byr a bod ganddynt hanes hir sydd wedi sefydlu'n dda o ddarparu cyrsiau yn y math hwn o ddarpariaeth, gan gynnwys rhai o'r rheiny a nododd nad oeddent yn bwriadu datblygu cyrsiau micro-gymhwyster ar hyn o bryd. Datgelodd y cyfweliadau dilynol fod y ffordd y mae darparwyr yn categoreiddio darpariaeth fel micro-gymwysterau'n amrywio ac efallai nad yw mor hawdd â'r disgwyl i gyfrif maint y gweithgareddau yn ymwneud â micro-gymwysterau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

6 Mae'r micro-gymwysterau yng Nghymru'n cael eu cynnig yn bennaf o gwmpas 5-20 credyd. Mae un o'r darparwyr yn eithriad i hyn, ac mae'n cynnig rhai micro-gymwysterau sy'n 40 credyd ynghyd â chyfres sydd o gwmpas 10-15 credyd yn bennaf. Mewn trafodaethau pellach, esboniwyd fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei yrru gan ddiwydiant, a bod y cyrsiau hirach hyn yn rhai sydd wedi cael eu rhedeg ar ran y gwasanaethau iechyd ers mwy nag 20 mlynedd. Mae'r dysgwyr yn ymarferwyr cymwysedig ac mae cynnwys a chymhlethdod yr hyn sy'n ofynnol yn gyrru nifer

[1] Cyhoeddwyd yr astudiaethau achos hyn ar wefan CCAUC ar 14 Rhagfyr 2022 ac maent ar gael ar: www.hefcw.ac.uk/cy/blog-cy/datblygu-microgymwysterau

[2] Mae rhestr o'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect wedi ei chynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd â phob un ond un o'r darparwyr nad oedd yn gallu cymryd rhan yn y cam hwnnw o'r prosiect.

y credydau. Ar y cyfan, roedd y darparwyr yn barnu oedd nad oedd cyrsiau micro-gymhwyster hirach yn fuddiol i'r dysgwr fel arfer. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys pa mor gyflym y ceisiwyd dysgu sgiliau neu wybodaeth arbennig, faint o amser fyddai ar gael i ddysgwr i gymryd rhan mewn dysgu ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill neu gyflogaeth, a'r amrywiaeth ym mhrofiadau dysgu blaenorol y dysgwyr. Yn ogystal, mae cwrs micro-gymhwyster â 30 credyd yn 300 o oriau dysgu, ac ystyrir bod hyn yn ormod o astudio i'w ddisgwyl gan rywun sydd heb lawer o brofiad addysgol blaenorol o bosib neu sydd heb fod ym myd addysg ers blynyddoedd lawer.

7 Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr sy'n cynnig, neu sy'n bwriadu cynnig, micro-gymwysterau wedi datblygu darpariaeth ar lefelau 4 i 7. Ar hyn o bryd, mae un o'r darparwyr yn canolbwyntio ar gyrsiau ar lefelau 5 a 7, ac mae un arall yn bwriadu cyflwyno cyrsiau micro-gymhwyster ar lefel 7 yn unig yn y lle cyntaf. O ran y cyntaf, ymgynghoriad â busnesau a benderfynodd ar ba lefelau ac ym mha feysydd astudio y byddai micro-gymwysterau'n cael eu datblygu. O ran yr ail, roedd y micro-gymhwyster yn dal i gael ei ddatblygu fel peilot a bydd cynlluniau ar gyfer ehangu'n cael eu penderfynu ar sail yr hyn a ddysgir o'r peilot.

8 Mae'r dulliau o ddarparu'r cyrsiau'n amrywio, a chynigir rhai cyrsiau micro-gymhwyster ar ffurf dysgu ar-lein yn unig (weithiau, ond nid bob amser, ar blatfformau allanol), drwy ddefnyddio dull darparu cyfunol a allai gynnwys elfen ddysgu seiliedig ar waith, neu drwy ddarparu cyrsiau ar y campws. Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gyda dulliau darparu amrywiol, mae maint yr hyblygrwydd sydd gan y dysgwyr pan maen nhw'n cymryd rhan yn amrywio hefyd. Mewn rhai achosion, mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae'r darparwr yn categoreiddio'r ddarpariaeth (sef, naill ai cwrs micro-gymhwyster neu gwrs byr yn unig). Mae'r amrywiaeth yn y dulliau a ddefnyddir yn adlewyrchu anghenion amrywiol y dysgwyr, a ffocws a dibenion y micro-gymhwyster.

## Y defnydd a wneir o ganllawiau i'r sector, yn cynnwys y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau gan QAA

9 Cadarnhaodd pob un o'r darparwyr eu bod yn gyfarwydd â'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau gan QAA, ac roedd rhai unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn yn aelodau o'r Grŵp Cynghori gwreiddiol a oedd yn goruchwylio ei ddatblygiad. Roedd y Datganiad o Nodweddion yn cael ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, cafodd ei ddefnyddio gan rai darparwyr i strwythuro trafodaethau mewnol am gyrsiau micro-gymhwyster a chyrsiau byr, a nododd un ei fod yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau profiad o safon uchel i'r myfyrwyr, beth bynnag fo hyd y cwrs. Nododd rhai darparwyr nad oedden nhw wedi ei ddefnyddio wrth ddatblygu eu darpariaeth cyrsiau micro-gymhwyster am eu bod eisoes yn darparu portffolios sylweddol pan ddaeth hwn ar gael. Fodd bynnag, ar ôl adolygu eu dulliau yn erbyn y Datganiad o Nodweddion, roedd aelodau o staff y darparwyr hynny yn fodlon nad oedd unrhyw beth ynddo oedd yn creu anawsterau a rhoesant enghreifftiau o'r ffordd yr oedd wedi bod yn ddefnyddiol - er enghraifft, fel adnodd i gydweithwyr oedd heb ymwneud cymaint â micro-gymwysterau hyd yn hyn. Cadarnhaodd pob un o'r darparwyr a oedd wedi datblygu darpariaeth ers ei gyhoeddiad, neu oedd wrthi'n gwneud hynny, ei fod yn ddefnyddiol.

10 Dywedwyd bod sylw yn y Datganiad o Nodweddion am y ffaith nad oedd cyrsiau byr â chredydau'n ffenomenon newydd ac awgrymwyd y gallai'r sylw hwn fod yn fwy amlwg, ac efallai y byddai hwn yn faes i'w ystyried wrth adolygu'r Datganiad. Awgrym arall oedd datblygu esiamplau o arferion i ychwanegu at y canllawiau fel adnodd cefnogi.

11 Roedd y canllawiau eraill a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr yn cynnwys y canlynol: fframwaith micro-gymwysterau cyffredin y Consortiwm CAEA Ewropeaidd [European MOOC Consortium]; papurau addysgol ynglŷn â sut i lunio, darparu ac asesu cyrsiau byr iawn (sydd â llai na 5 credyd) yn llwyddiannus; yn ogystal â chanllawiau gan ddarparwyr platfformau allanol a ddewiswyd gan y darparwyr addysg uwch i ddarparu eu cyrsiau arnynt. Cafwyd

cyfeiriad hefyd at ganllawiau eraill a gododd o waith megis y prosiect 'Microbol' yn Ewrop - a'r argymhellion a roddwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd o ganlyniad i hynny. Y tu hwnt i Ewrop, mae fframwaith micro-gymwysterau Awdurdod Cymwysterau Seland Newydd wedi derbyn ystyriaeth.

## Fframweithiau academaidd a phrosesau rheoli ansawdd

12 Gan fwyaf, nid yw darparwyr wedi gorfod gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i fframweithiau academaidd a rheoliadau cysylltiedig er mwyn medru darparu micro-gymwysterau. Roedd gan nifer ohonynt fframweithiau digon hyblyg neu maent wedi datblygu cyrsiau micro-gymhwyster sy'n adlewyrchu'r fframweithiau academaidd sydd ar waith.

13 Nododd rhai darparwyr bod y defnydd a wneir o'r rheoliadau presennol sy'n ymwneud â 'myfyrwyr cyswllt'[3], ynghyd â gweithrediad y rheoliadau hyn mewn perthynas â dysgwyr sy'n astudio ar gyfer micro-gymwysterau, wedi bod yn gyfle defnyddiol i adolygu a diweddaru.

14 Roedd un gwahaniaeth mewn rheoliadau a nodwyd gan ddarparwr yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol. Yn yr achos hwn, y rheswm oedd bod y micro-gymhwyster wedi ei lunio fel bod y dysgwr yn gallu dewis pryd i gyflwyno ar gyfer asesiad. Am fod amgylchiadau esgusodol fel arfer ond yn cael eu defnyddio i negodi estyniad, ni fyddai hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer micro-gymwysterau.

15 Nid yw ailgyflwyno pan fydd asesiad yn methu yn opsiwn bob amser, chwaith, ar gyfer micro-gymwysterau gan rai darparwyr. Efallai fod hynny'n rhannol gysylltiedig â'r goblygiadau o ran adnoddau. Fodd bynnag, mae cyfran resymol o ddysgwyr mewn rhai meysydd astudio'n pryderu llai am ennill credydau academaidd ac mae eu diddordeb yn bennaf yn y wybodaeth a'r sgiliau y maent yn eu dysgu drwy gymryd rhan yn y cwrs. Oherwydd hynny, mae rhai darparwyr yn cynnig cyrsiau byr gydag opsiwn i dderbyn cadarnhad o gyfranogaeth (er enghraifft, tystysgrif neu fathodyn digidol gan y darparwr) neu, fel arall, gyflwyniad ar gyfer asesiad i gael ei ystyried ar gyfer dyfarnu credydau academaidd (hynny yw, ail adrodd y micro-gymhwyster). Er bod y cofrestriad ar gyfer y ddau opsiwn yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gwahaniaethu rhwng bwriadau'r dysgwyr, mae'n cael ei ddarparu i'r grŵp i gyd. Am fod dysgwr sydd wedi methu aseiniad yn dal i fod yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn i dderbyn rhyw fath o gadarnhad o'i gyfranogaeth a'i waith dysgu, gallai fod yn llai o broblem ennill y credydau academaidd, yn enwedig os oedd yr ymgysylltiad wedi digwydd yn bennaf i wella perfformiad yn y gwaith.

16 Soniodd nifer fawr o ddarparwyr am brosesau rheoli ansawdd a oedd yn ddigon hyblyg yn barod i ddarparu ar gyfer gwahanol ddyddiadau dechrau a gwahanol bwyntiau asesu, a phrosesau monitro a gwerthuso oedd yn galluogi adolygiad amserol.

17 Roedd un o'r prif heriau a nodwyd ym maes rheoli ansawdd yn ymwneud â phrosesau ymgeisio a chofrestru. Lleisiwyd rhywfaint o rwystredigaeth am y maint o ddata yr oedd yn rhaid rhoi adroddiad arno ar lefel y sector a'r ffaith bod hyn yn negyddu unrhyw geisiadau gan y darparwr i symleiddio prosesau. Canlyniad hyn oedd proses oedd yn teimlo'n feichus, yn arbennig wrth weithio gyda charfannau o ddysgwyr gan yr un cyflogwr.

18 Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod nifer o'r darparwyr yng Nghymru wedi datblygu eu darpariaeth bresennol o gyrsiau micro-gymhwyster mewn cydweithrediad â'r diwydiant ac mewn ymateb i anghenion y diwydiant. Er bod rhai darparwyr wedi nodi'r heriau sy'n ymwneud ag adnoddau mewnol a wynebir wrth gynllunio a chymeradwyo cyrsiau micro-gymhwyster, yn gyffredinol roeddent yn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i anghenion byd diwydiant.

[3] Mae myfyrwyr cyswllt yn fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru i astudio modiwlau unigol rhaglen astudio heb gofrestru ar y rhaglen lawn (er enghraifft, rhaglen sy'n arwain at dystysgrif, diploma neu radd). Gall roi cyfle i'r myfyrwyr ddangos eu bod yn gallu astudio ar y lefel hon ac wedyn symud ymlaen at y rhaglen lawn.

## Y cymorth a'r cyfleusterau sydd ar gael i'r myfyrwyr

19 Mae'r cymorth sydd ar gael i'r myfyrwyr yn amrywio rhwng y darparwyr, ac mae hyn yn cynnwys cymorth academaidd a bugeiliol, a'r dull darparu (wyneb yn wyneb a/neu rithwir). Dywedodd rhai darparwyr yn glir iawn fod yr un pethau ar gael i'r dysgwyr sydd ar gyrsiau micro-gymhwyster ag unrhyw fyfyrwyr eraill, a'u bod yn cael eu trin yn yr un ffordd. Mewn rhai achosion, oherwydd natur y cwrs micro-gymhwyster, mae'r dysgwyr yn dod i'r campws i ddefnyddio cyfleusterau neu gyfarpar arbenigol. Yn fwy na hynny, mae nifer fawr o ddarparwyr wedi datblygu eu darpariaeth ar-lein a'u gwasanaethau cymorth yn y ffordd briodol, ac mae hyn yn galluogi i ddysgwyr ar gyrsiau micro-gymhwyster gael gafael ar yr un cymorth â myfyrwyr llawn amser neu ran amser, beth bynnag fo dull eu hastudio.

20 Nododd nifer fechan o'r darparwyr eu bod yn cyfyngu ar fynediad i gymorth myfyrwyr a chyfleusterau, a'u bod, yn hytrach, yn ceisio integreiddio unrhyw gymorth academaidd ac adnoddau sy'n angenrheidiol yn y cwrs micro-gymhwyster ei hun, ac nid ydynt yn caniatáu i ddysgwyr eraill ddefnyddio'r gwasanaethau ehangach sydd ar gael i fyfyrwyr yn unig sydd wedi eu cofrestru ar raglenni gradd lawn (er enghraifft, cymorth cwnsela neu gyngor gyrfaoedd canolog). O ganlyniad i hynny fodd bynnag, un o'r heriau cydnabyddedig gyda chyrsiau micro-gymhwyster lle mae gan y dysgwyr lefelau gwahanol iawn o brofiad addysgol blaenorol, yw bod rhai myfyrwyr yn gweld y gwasanaeth integredig o gymorth academaidd a sgiliau'n wasanaeth dianghenraid tra bod eraill yn dal i deimlo ar goll gyda'r agwedd honno o'r cwrs.

21 Nododd un o'r darparwyr - er ei fod yn cynnig yn union yr un cymorth (er enghraifft, asesiadau anabledd) i ddysgwyr sydd ar gyrsiau micro-gymhwyster ag unrhyw fyfyrwyr cofrestredig arall - mewn gwirionedd, gall y cyfnod o gyfranogaeth ar gwrs micro-gymhwyster gyfyngu ar faint o effaith y gall y cymorth hwn ei gael.

## Ymgysylltiad myfyrwyr

22 Yn bennaf, mae'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r myfyrwyr wedi eu cyfyngu i werthusiadau ar ddiwedd y cwrs, sydd wedi eu cyflenwi weithiau gan gyfleoedd anffurfiol i roi adborth hanner ffordd drwy'r cwrs. Er bod rhai darparwyr wedi nodi eu bod yn gwahodd dysgwyr sydd ar gyrsiau micro-gymhwyster i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill megis pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr neu gymryd rolau cynrychioli, mewn gwirionedd, mae hyd eu cyrsiau'n rhy fyr yn aml iawn, ac felly ni chynhelir y gweithgareddau yn ystod cwrs micro-gymhwyster penodol.

23 Ar y cyfan, 'pragmatig' yw'r term gorau i ddisgrifio'r dull a ddefnyddir ar draws y sector i ymgysylltu â myfyrwyr sydd ar gyrsiau micro-gymhwyster. Mae'r sector yn cymryd y maes hwn yn ddifrifol iawn, a gwelwyd tystiolaeth glir drwy gydol y prosiect i ddangos bod hyn yn wir am ficro-gymwysterau hefyd, a chafwyd rhai ymatebion ystyriol iawn. Yn gyffredinol, cydnabuwyd fod angen addasu'r dull i gyfateb â'r dysgwyr a'r dull o ddarparu'r cwrs micro-gymhwyster, a does dim un ateb penodol i ddatrys y cyfan. Ond, ni chafwyd sefyllfa o beidio cynnig unrhyw gyfle.

## Y prif heriau

24 Nododd y darparwyr nifer o heriau. Un her sylweddol oedd y ffaith bod micro-gymwysterau'n gofyn am fwy o adnoddau o'u cymharu â macro-gymwysterau.[4] Er gwaethaf yr ymdrechion a wneir i symleiddio prosesau, nododd darparwyr fod maint gofynnol o waith y mae'n rhaid ei wneud waeth faint yw nifer y credydau a nifer y dysgwyr. Nid yw rhai o'r effeithlonderau sydd

[4] Mae macro-gymwysterau'n gymwysterau a ddyfernir ar sail cwblhau astudiaeth mewn maes astudio penodol yn llwyddiannus, a'i asesu, gyda chanlyniadau dysgu trosfwaol diffiniedig ar gyfer cymwysterau a addysgir. Bydd terfyn isaf ac uchaf ar y cyfnod cofrestredig ac mae'n rhaid cwblhau'n llwyddiannus o fewn y cyfnod hwn. Fel arfer mae'n flwyddyn o leiaf o astudio'n llawn amser (er enghraifft, ar gyfer tystysgrif addysg uwch) a gall fod yn nifer o flynyddoedd (er enghraifft, ar gyfer rhaglen ran amser sy'n arwain at radd doethuriaeth).
*Y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau (2022)*

i'w cael mewn macro-gymwysterau i'w cael mewn micro-gymwysterau. Rhestrwyd esiamplau o oblygiadau o ran adnoddau ar gyfer pob un bron o'r camau rheoli ansawdd - o'r cam datblygu cynllun gwreiddiol ar gyfer cwrs micro-gymhwyster, hyd ei lunio, ei gymeradwyo, ei farchnata a'i weithredu, rheoli'r profiad ar y cwrs ac unrhyw gamau dilyniant a gymerir.

25 Er bod rhai darparwyr wedi nodi heriau mewn perthynas â chyfateb â'r fframweithiau academaidd sydd ar waith neu â'r gwahanol ddulliau addysgol sy'n ofynnol ar gwrs o, er enghraifft, 5 credyd, ystyriwyd fod y rhain yn llai o broblem ar y cyfan.

26 Yn fwy arwyddocaol, gellir cael dysgwyr o gefndiroedd gwahanol iawn ar yr un cwrs micro-gymhwyster, a gall hyn fod yn anodd mynd i'r afael ag o mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw rhai wedi diflasu tra bo eraill yn teimlo fod y cwrs yn rhy anodd iddynt. Hefyd, mae'r sefydliadau'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ystyried yr heriau ymarferol sy'n wynebu dysgwyr sy'n ceisio llywio drwy'r amrywiaeth o adnoddau, gwasanaethau cymorth a meysydd academaidd y darparwr i ganfod gwybodaeth a chymorth.

27 Roedd nifer yn teimlo fod cydnabod dysgu blaenorol mewn perthynas â chredydau a ddyfernir gan gorff dyfarnu graddau arall neu gorff achredu arall yn her sylweddol, er gwaethaf yr ymrwymiad ar draws y sector i Fframweithiau Cymwysterau, Datganiadau Meincnodi Pwnc ac egwyddor system o gasglu a throsglwyddo credydau. Mewn trafodaethau, roedd hi'n amlwg bod rhai darparwyr yn dal i ystyried micro-gymwysterau yn brofiad cydlynol llinol a lunnir gan y darparwr, yn hytrach nag ystyried anghenion y dysgwyr unigol, ochr yn ochr â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt eisoes o ganlyniad i waith a chyfleoedd anffurfiol eraill. Roedd hyn, felly, yn arbennig o heriol pan gododd 'y gallu i bentyrru'. Mewn gwirionedd, pan mae'r dysgwr yn ceisio cyfuno micro-gymwysterau â chymhwyster cydnabyddedig, y broblem fwyaf mae'n debyg yw canfod lle mae dyblygu (neu gyfri dwbl) yn hytrach na bylchau. Roedd llai o bryder ynglŷn â dulliau consortiwm lle gallai grŵp o ddarparwyr gytuno i gronni casgliad o ficro-gymwysterau o bosib, a chydnabod rhai ei gilydd, ac mae o leiaf un esiampl o hynny'n gweithio'n llwyddiannus yn barod yng Nghymru.[5] Ar y cyfan, fodd bynnag, mae hyn yn dweud llawer am y gwahanol lefelau o hyder a dealltwriaeth sy'n bodoli am ficro-gymwysterau, a'r canfyddiadau sydd gan bobl am eu prif amcanion.

## Ystyriaethau i hysbysu gwaith pellach

28 Mae'n sicr fod cwestiwn yn codi am y gyfundrefn enwi ac a yw'r arferion amrywiol yn cymylu maint y ddarpariaeth yn y maes hwn ar hyn o bryd. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n ymddangos bod y darparwyr yn cynnig cyrsiau byr sydd, i bob pwrpas, yn cyfateb â diffiniad y term 'micro-gymwysterau' ond nad yw'r darparwyr yn eu categoreiddio'n ficro-gymwysterau. Ar y llaw arall, mae darparwyr eraill yn defnyddio dull mwy cynhwysol o gategoreiddio cyfleoedd cyrsiau byr. Roedd y cyfweliadau dilynol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer deall rhai o'r manylion hyn. Hefyd, mae'r amrywiaeth yn y dulliau dosbarthu hyn yn golygu bod cyfleoedd yn bodoli, nad ydynt wedi eu harchwilio eto, i rannu arferion a gwybodaeth am heriau.

29 Er nad yw rhai o'r darpariaethau presennol o gyrsiau byr efallai'n cyflawni diffiniad technegol y term 'micro-gymwysterau' fel sydd wedi ei nodi yn y Datganiad o Nodweddion gan QAA, mae nifer o'u nodweddion yn cyfateb, ac mae cyfle i weithredu dulliau ac arferion tebyg o sicrhau ansawdd a chefnogi profiad y dysgwyr. Felly, mae mantais mewn archwilio arferion a dysgu o ddarpariaeth eang o gyrsiau byr, a gallai hyn gefnogi'r gwaith o ddatblygu a lledaenu arferion yn ymwneud â micro-gymwysterau.

30 Nid oedd modd anwybyddu cwestiynau oedd yn ymwneud â chyllido. Er mai'r agwedd sydd wedi ei gymryd gyda'r prosiect hwn yw canolbwyntio ar strategaethau, polisïau ac arferion y darparwyr, tynnwyd sylw at y ffaith bod bwriad y llywodraeth yn effeithio ar strategaethau,

---

[5] Esiampl o hyn yw'r fenter 'Technocamps' sydd wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ar draws y prifysgolion i gyd yng Nghymru i gefnogi datblygiad sgiliau digidol drwy Gymru gyfan.

polisïau ac arferion y darparwyr hynny. Er enghraifft, os disgwylir i'r dysgwyr dalu am eu cyrsiau eu hunain, neu os rhoddir paramedrau penodol ar y ffordd y gallai dysgwyr fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol, bydd hyn yn effeithio ar uchelgeisiau a strategaeth y darparwr.

31 Hefyd, yn y trafodaethau, codwyd y mater o ganfyddiadau'r cyflogwr am ficro-gymwysterau. Mewn rhai achosion, mae yna berthynas waith agos ac effeithiol rhwng darparwyr a diwydiannau neu gyflogwyr penodol sydd wedi arwain at ddatblygu cyrsiau micro-gymhwyster a chyrsiau byr at ddibenion arbennig. Er bod arwyddion clir i ddangos bod cyflogwyr eraill eisiau i ficro-gymwysterau fod ar gael, ceir rhywfaint o synnwyr o faint y maen nhw'n gwerthfawrogi ac yn deall micro-gymwysterau, neu sut y gallai micro-gymwysterau fod yn gysylltiedig â phwyntiau DPP. Cymeradwywyd prosiect arall, oedd yn cynnwys cyflogwyr, i archwilio hyn fel cyfle allweddol i helpu i hysbysu polisïau a dulliau.

32 Codwyd cwestiwn diddorol am yr hyn a olygir gan 'lwyddiant' yng nghyd-destun micro-gymwysterau. Mae rhai pobl yn amharod i seilio 'llwyddiant' ar y credydau academaidd a enillir oherwydd, fel y nodwyd eisoes, mae llawer o ddysgwyr yn rhoi llai o bwys ar gael y cyfle hwnnw ar gwrs. Mae rhai darparwyr yn ystyried busnes sy'n ailadrodd yn arwydd bod cwrs micro-gymhwyster penodol yn un sydd werth ei gynnig, yn enwedig pan mae cofrestriadau newydd yn digwydd o ganlyniad i gymeradwyaeth gan gyn-ddysgwyr. Mae darparwyr eraill wedi nodi mai strategaeth farchnata dda sy'n peri i gofrestriadau ddigwydd dro ar ôl tro.

33 Ystyriaeth arall yw prif rôl a diben micro-gymwysterau. Mae rhai darparwyr yn hyderus yn eu dulliau o gynnig micro-gymwysterau, ac maent yn cydnabod eu bod wedi defnyddio'r dull dysgu hwn (er ei fod o dan derm gwahanol) ers amser maith. Mae darparwyr eraill mewn perygl o ddatblygu dull a allai beri iddynt greu yr hyn sydd, yn ei hanfod, yn radd draddodiadol ond gyda holl agweddau rheoli ansawdd yn ymddangos eto ar lefel y modiwlau yn hytrach na lefel y rhaglenni.

34 Hefyd, mae hyn yn dangos bod cyfle i'r sector ailystyried dulliau o astudio'n rhan amser a gwneud mwy o ddefnydd o gymwysterau a ystyrir ar hyn o bryd yn ddyfarniadau a geir wrth adael cwrs. Efallai y byddai'n opsiwn gwell i rai dysgwyr gael dulliau o astudio'n rhan amser sy'n fwy arloesol, creadigol a hyblyg, yn hytrach na mynd ati i gasglu micro-gymwysterau, yn enwedig os mai'r nod ar y cychwyn yw ennill cymhwyster cydnabyddedig yn hytrach na chael cyfle i ddatblygu sgiliau sy'n uniongyrchol ac wedi eu targedu.

# Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at y prosiect hwn drwy gwblhau'r arolwg, cymryd rhan mewn cyfweliad dilynol neu gyfrannu at weminar, fel a ganlyn:

**Prifysgol Aberystwyth**

- Yr Athro Andrew Thomas

**Prifysgol Bangor**

- Dr Myfanwy Davies
- Lois McGrath

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

- Chris George
- Steven Osborne

**Prifysgol Caerdydd**

- Owain Huw
- Tony Lancaster
- Sarah Lethbridge

**Grŵp Llandrillo Menai**

- Paul Flanagan
- Joanne Owen

**Grŵp Colegau Castell-Nedd Port Talbot**

- Yr Athro Richard Tong

**Y Brifysgol Agored yng Nghymru**

- Rhys Daniels
- Caitlin Harvey
- Dr Scott McKenzie

**Prifysgol Abertawe**

- Phil Brophy
- Yr Athro Laura Roberts

**Prifysgol Cymru**

- Kathryn Gomm
- Nicola Poole

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

- Gary Clifford
- Yr Athro Kyle Erickson
- Yr Athro Mirjam Plantinga

**Prifysgol Wrecsam**

- Dr Neil Pickles

Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: +44 (0)1452 557 000
Gwefan: www.qaa.ac.uk